

[www.cyngorllanelltyd.cymru](http://www.cyngorllanelltyd.cymru)

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaef a Bontddu a gynhaliwyd ar  
Zoom  
Nos Fawrth, Ionawr 11, 2022 am 7:30yh o'r gloch.**

**Presennol:** Cyngorwyr: Simon Evans, Geraint Rowlands, Gareth Ellis, John Hughes, Elfed ap Gomer, Llinos Williams, Gwenan Owen. Hefyd Cyng. Peredur Jenkins a Henry M. Edwards.

**1. Ymddiheuriadau:**

Doedd dim ymddiheuriadau.

**2. Datgan diddordeb:**

Roedd Gwenan Owen yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 5.b.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Rhagfyr 14, 2021**

Cynigwyd gan Elfed ap Gomer, ac eilwyd gan John Hughes.

**4. Materion yn codi o'r cyfarfod Rhagfyr 14, 2021**

a. Eitem 11.b. Mae Clogau -St David's Gold Mine yn bwriadu gwneud gwaith ymchwil ymhellach o'r tir Cwm Mynach drwy ddefnyddio drôn. Bydd y drôn yn gwneud arolwg geoffisegol o'r ardal heb orfod tynnu lluniau. Pwrpas yr arolwg i'w mesur ymateb magnetig y creigiau dan yr wyneb. Bydd y gwaith yn cymryd 8 diwrnod i'w gwblhau a hwyrach ambell i dro dros gyfnod o 6 mis hyd at 31/5/2022. Mae trigolion Cwm Mynach yn gwrthwynebu'r bwriad oherwydd maent angen esboniad llawn o fwriadau'r cwmni a beth fydd yn ei olygu i drigolion y cwm. Trwy Elfed ap Gomer mae llythyr wedi ei anfon i'r cwmni gyda deiseb o wrthwynebwyr i'r bwriad. Mae copi wedi ei anfon i Mabon ap Gwynfor AS, Liz Saville Roberts AS, Parc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru, R.S.P.B., Coed Cadw/ Woodland Trust, a Cyngor Cymuned Llanelltyd, Tai Cynhaef a Bontddu.

Cafwyd Elfed ap Gomer wybod gan:

Parc Cenedlaethol Eryri – maent am ymateb pan fydd rhywbeth yn digwydd.

Liz Saville Roberts AS – derbyniwyd dogfen yn rhoi rheolau ar ddefnyddio drôn.

Cyfoeth Naturiol Cymru – maent am fonitro'r sefyllfa.

Mae'r trigolion yn awyddus cael cyfarfod cyhoeddus trwy Zoom i drafod y mater.

Penderfynwyd holi hwy i gael gwybod os oes ganddynt gynlluniau eraill i ddod dros yr anhawster o archwilio'r tir bydd yn dderbyniol i drigolion yr ardal. Os mae, iddynt rhoi gwybod inni.

## **5. Materion Ariannol**

- a. Llythyr (15/12/2021) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd y gost o lenwi biniau halen yn ddi-dâl a bydd yn cael ei weithredu yn syth.
- b. Bil (20/12/2021) am £620 oddi wrth John Arfon Jones am ail agor bedd ar gyfer gwasanaeth yn 13/11/2021.

Penderfynwyd talu'r bil.

- c. Llythyr (5/1/2022) oddi wrth Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

- ch. Balans yn y banc ar 29/12/2021: £11,933.66. (29/12/2020: £12,150.22).

Gydag ein cyfrif bank yn 'Cyfrif Cyffredinol Busnes' mae ffi o £8 y mis yn cael ei dalu am gynnal y cyfrif, a thaliad o £1 am bob sic talwyd.

## **6. Archwilio**

## **7. Mynwent Llanelltyd**

## **8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

- a. Llythyr (15/12/2021). Gyda Dirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn Safle Treftadaeth y Byd mae'r Awdurdod, gyda Cyngor Gwynedd, yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus i asesu ceisiadau cynllunio sydd wedi ei leoli o fewn neu yn effeithio ar osodiad y Safle Treftadaeth y Byd. Os mae barn maent ei angen rhwng Rhagfyr 15 2021 a Chwefror 9, 2022.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

## **9. Gohebiaeth**

- a. Llythyr (14/12/2021) oddi wrth Llywodraeth Cymru trwy Un Llais Cymru ynglŷn â Chymwysterau Clercod yn ôl Rheoliadau Cyngorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol). Maent yn rhoi gwybod bydd y Rheoliadau yn dod i rym ar Mai 5, 2022. I'r Cyngor fod yn gyngor cymuned cymwys mae rhaid i'r Clerc anelu am Dystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cyngorau Lleol. Ond nid rhaid i'r Cyngor fod yn gyngor cymuned cymwys. (Gweler Cofnodion Medi 14, 2021, Eitem 4. Eitem 9.dd).

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION IONAWR 11, 2022

b. Llythyr (15/12/2021) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o fanylion sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Ionawr, Chwefror a Mawrth 2022.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (15/12/2021) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd:

1. Colofnau golau stryd wrth Hen Ysgol Bontddu ar ffordd A496 yn cael eu newid.

2. Gwaith wynebu ac agor ffos yn cael ei wneud wrth Pont Ffira.

### **10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins**

a. Cyhoeddwyd y Llywodraeth bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn 8% yn fwy at eu cyllideb 2022-2023. Ni ddisgwilir bydd toriadau yn y gwasanaethau.

b. Cytunodd Cabinet Cyngor Gwynedd i sefydlu Timau i gadw ein trefi a chymunedau yn daclus. Bydd angen rhoi gwybod iddynt y gwaith sydd angen eu gwneud.

c. Ni fydd Peredur Jenkins yn rhoi ei enw ymlaen yn etholiad Cyngorwyr Gwynedd ym mis Mai 2022.

### **11. Materion yr Aelodau**

a. Mae angen biniau ail gylchu cymunedol newydd yn Cwm Hirgwm, Bontddu.

Cafodd y mater ei drin gan Gethin Williams.

b. Mae cyflwr y wal rhwng y Curfew a stad Bro Cymer wedi dirywio. Mae angen ei hail adeiladu.

Cafwyd wybod gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru mai y tîrfeddianwr sy'n gyfrifol am gynnal y wal. Gwnaethpwyd ymoliadau â 'Adra' ynglŷn â'r wal ond ni chafwyd ateb. (Gweler Cofnodion Gorffennaf 14, 2020 eitem 4. Eitem 12.b. ii)

Penderfynwyd anfon llythyr arall i Adra.

c. Mae dŵr yn gorlifo rhwng y Curfew a The Gardens. Mae angen glanhau draen. Cafwyd wybod gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru mae cynllun i roi ffos gerrig yn y lleoliad. (Gweler Cofnodion Gorffennaf 13, 2021 eitem 4, eitem 12.b.).

Penderfynwyd rhoi gwybod i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru mae angen gwneud y gwaith mor fuan ag sy'n bosib.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION IONAWR 11, 2022

ch. Nid yw to arosfa bws Taicynhaeaf byth wedi cael ei drwsio ac mae'r dirywiad yn gwaethygu.

Cafwyd wybod mae gwaith yn cael ei wneud ar y to.

d. Mae twll yn y ffordd wrth Ty'n Coed, Taicynhaeaf.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

dd. Ar y llwybr cyhoeddus sydd rhwng Hen Bont Llanelltyd a Tan Llan mae coeden wedi cwmpo ger y llwybr ac wedi achosi'r llwybr i godi a chreu difrod sylweddol.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cefn Gwlad, Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd.

e. Ar Llwybr Buan, Llanelltyd mae difrod dŵr wedi creu llanast a thyllau dwfn ar y llwybr.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cefn Gwlad, Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd.

f. Ar ffordd gefn o Lanelltyd i Ganllwyd mae cylfat, ar gyfer Vanner, wedi cau gan achosi dŵr i lifo lawr y ffordd gan ddifrodi'r ffordd. Mae angen clirio'r cylfat.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

ff. Mae oglau a blas chlorine cryf ar ddŵr Tai Cynhaeaf.

Penderfynwyd holi Dŵr Cymru pam roedd oglau a blas chlorine cryf ar y dŵr.

g. Mae beics modur yn creu difrod mawr i'r tir / llwybr 'Green Lane' sy'n mynd o Cae-Goronwy, ar hyd Braich ac at Pont Scethin. Mae angen cefnogaeth yr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac asiantaeth eraill i ddatrys y broblem.

Derbyniwyd lluniau yn dangos y difrod. Anfonwyd hwy ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi gwybod am y difrod i Cyfoeth Naturiol Cymru; Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd; Gwasanaeth Cefn Gwlad, Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd; Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

-----